Bwletin Llên Natur

*Golwg newydd ar y byd o'n cwmpas*

Rhifyn
97
Mawrth 2016





5 o luniau yn dangos tylluan wen yn hela. Sylwais ar y dylluan tua 400 llath i ffwrdd, yn hedfan ger ffens gwifren bigog, glaniodd ar bostyn, daeth yn agosach i'r guddfan a glaniodd sawl gwaith gan ddod yn nes ac yn nes. Daeth o fewn 20 llath, glanio eto ar bostyn, edrych i'r llawr ac yn sydyn plymio i'r ddaear, yn anffodus heb lwyddiant. Yna eisteddodd y dylluan ar bostyn giat tua 10 llath o lle roeddwn yn cuddio. Profiad gwych !

**Alun Williams**

**Yr hen grefft**



Titw Tomos Las wedi ail ddysgu'r hen grefft o gael cnau mwnci allan o'u plisgin. Mi farwodd yr arferiad tua 1947 (y gaeaf oer hwnnw) **Wil Williams**

Ewch yma (tudalen 5) i ddilyn trywydd y stori hon yn ol.

Hefyd llun [Wil eto] o Ditw'r Wern yn Nantgaredig. Roedd yn hapus i fyta cnau mwnci a hada Niger.




Dim ond tua 80 mlynedd yn ôl y cafodd titw'r wern ei adnabod fel rhywogaeth (British Birds Cyfrol 3 1909) ar wahan i ditw'r gors. Mae cap di-sglein titw'r wern i'w weld yn eglur yn llun Wil.

**Yr enwog coch a bon ddu**



Pryf pysgota yr enwog coch y bonddu (coch â bon ddu) wedi ei gawio gan Rhys Llywelyn, yr uchaf yn ddynwaredol, yr isaf yn "draddodiadol".

Cyfrannwyd y llun gan Rhys Llywelyn
>> DB




***Dzem Borovka* (jam llus) - lyfli!**




Beth am fynd i lysieua ar y stryd fawr - yn y siopau "ethnig" sydd yn ymddangos ymhobman. Mae llus yn cael eu gwerthfawrogi gan y Pwyliaid.

Mae'n amlwg mai ffurf ar jam yw *dzem* - ond o ble daeth "jam"? Yn ôl yr OED, o'r Ffrangeg *j'aime* y daeth y gair- sef "rwy'n hoffi". Addas iawn, ond nid i'r Ffrancwyr bellach- *confiture* yw eu gair nhw erbyn hyn!

**Aeron Gwifwrnwydden y Gors**



Wrth yr Hen Gapel, Llanbrynmair, Maldwyn. Hydref 2015 **Harri Lloyd**

*Viburnum opulus* gwifwrnwydden y gors (Corswigen, Rhosyn y Gau-ysgawen, Ysgawen y Gors *guelder rose)*

**Planhigion Blodeuol; Conwydd a Rhedyn. Cymdeithas Edward Llwyd 2003**

**Robinod beiddgar**

Dyma robin goch dof sy'n hoff o gael ei fwydo yn y gilfan ar y ffordd rhwng Porthmadog a Phentrefelin.



**Gwyn Williams**

Mae robinod cochion wedi bod yn canu eu cân gwanwyn ers cyn y Nadolig yn y Waunfawr, a pherchennog Pendwroer yn cwyno bod un robin yn ymosod yn ddidrugaredd are ei ddelwedd ei hun yn nrych y car.

# Ar draethell unig



Gwymon trawiadol wedi hel ar hyd y traeth, Pontllyfni, 16 Ionawr 2015: effaith y stormydd diweddar mae'n debyg

Meddai Sion Roberts: Gwymon coch o'r enw *Furcellaria lumbricalis*, *worm weed* yn Saesneg... (gwymon llynghyrog?) Gwymon gwryw sydd yn y ddelwedd. Y lliw pinc yn nodweddiadol o hyn. Y darnau ffrwythlon yw'r swigod pinc... ni wn yr enw cywir arnynt.... *reproductive body, fruiting body*. Spores nid paill sydd gan alga.

Sion Roberts



Morgi brych

5 o rhain ar draeth Pontllyfni bore ma 16 Ion 2015. Roedden nhw pob un yn lathen o hyd neu fwy - ond fel ma' rhywun, wnesh i ond darganfod ar ol mynd adref bod siap y geg a'r ffroenau yn gritigol i'w adnabod oddiwrth yr math llai. Ond o ran maint, y *nursehound* oedd o..... fydd rhaid i mi fynd yn ol beryg! Meddai Sion Roberts: Mae na ddigon ar ol I weld mai: *Scyliorhinus stellaris* : morgi brych, morgi mawr; ci ysgarmes; (*larger spotted dogfish; nurse hound; catfish; bull huss; rock salmon*)



Cregyn gwyrain yn sownd wrth fwi, traeth Pontllyfni 16 ionawr 2015 Duncan Brown

Gwelais rai ar draeth Abererch/Pwllheli dydd sul diwethaf meddai Netta Pritchard, Anet Tomos Porth Neigwl hefyd ... a Gill Brown mewn cae ymhell uwchlaw y penllanw ar y 17 Ionawr

**Lluniau Duncan Brown**

**Gwylan barus a'r morgwn brych**




Stori y Daily Post ddechrau Chwefror. Hwn ydi'r 6ed morgi brych i gyrraedd sylw Llên Natur ers y stormydd (gweler uchod) rhwng Aberdesach ac Aberogwen.

Meddai Rhys Jones: "Dwin cofio rwbath tebyg ar bont yr aber yn dre, a hogyn bach hefo'i daid ac yn deud: 'Yyy, yli'r sigyl yn byta shark thing - Cwiiar!!' "

Sgwrs efo Mike Herd Hughes heddiw 2 Chwefror (gwerthwr pysgod yng Nghaernarfon): meddai, rhain yn ddiwerth i bysgotwyr "mwy o ff.... nyrsys" oedd yn cael ei ddweud ond at y math lleiaf o'r ddau roedd Mike yn cyfeirio wrth yr enw yma. Dywed yr OED am *nurse-hound, -fish, -shark...* "*of various species... Nusse-fishe 1499* [ond ers 1848 "*Large Spotted Dogfish*"]... *perhaps a variant of HUSS with n from the article [an huss]*".



Morgi brych

Wrth eu ffroenau yr adnabyddir hwynt! Dyma (ar y dde) drwyn a cheg morgi brych o Aberdesach yn dangos y ffroenau nodweddiadol



**Corff carfil bach**

....ar un o draethau Berffro 11 1 16. **Wil Williams**

Er yn brin iawn, weithiau mae rhain yn cael eu tirio ar y traethau yn eu miloedd ar ôl stormydd. Cofnododd y naturieithwraig Mary Vaughan Jones o'r Waunfawr 24 Chwefror 1950 "Auk (little) - Cricieth-dead on the beach". Dyma gofnodion eraill o'r un cyfnod. Mae'n amlwg nad oedd yr hyn welodd Mary ond pigyn y rhewfryn.

**Dryw penfflamgoch**



Dryw penfflamgoch, Gwarchodfa Natur Conwy, Ionawr 19, 2016. Cyfeirnod grid: SH 7977

**Eifion Griffiths**

**Torheulo'r clochbiod**





Yn y tywydd poeth (30˚ - 40˚C, yn Awstralia) mae ymddygiad clochbiod yn rhyfedd. Yn hytrach nag anelu am y cysgod, weithiau maen nhw'n chwilio am le chwilboeth (ee. pridd yn erbyn wal), agor eu pig, a lledaenu eu hadenydd. Mae rhai ohonynt yn gwneud ystum arall: troi'r pen ar ei ochr, ceg agored eto. Am wn i, 'does dim eglurhad di-ddadl am hyn.

**Peter Edwards, Canberra**

Cyhoeddwyd ar wefan Llên Natur ym mis Chwefror 9,600 o enwau Adar y byd, ffrwyth rhagor na 20 mlynedd o waith gan weithgor o 12 o adaryddion ac arbenigwyr iaith. Dyma un o'r enwau: *Gymnorhina tibicen* clochbioden gefnddu black-backed magpie

**Rhestr Adar y Byd. Cymdeithas Edward Llwyd a Chymdeithas Ted Breeze-Jones 2015**

**Swn beth?**




Bu i mi gael galwad pnawn 'ma (dydd Sul 24/01/16) i fynd i geisio tynnu llun / darganfod beth oedd yn gwneud swn yn un o waliau allanol hen feudy yng Nghefngellgwm, Trawsfynydd, cartref Mrs Eirlys Tomos. Bu i Mrs Tomos egluro fod y swn wedi cychwyn ers dydd Mercher diwethaf. Roedd yn anodd dyfalu'n union o ba ran o'r wal oedd y swn yn tarddu, ond tybiwn mai rhywle yn agos i dop y wal uwchben y mortar calch yn y llun . Bu i mi hefyd ddefnyddio fideo fy ffôn er mwyn recordio'r swn, ... noder y wich ar ddiwedd y clip.

Bu i Gwilym Williams, Brynllefrith, alw yno yn ogystal a soniodd fod 'na ffuredau wedi dianc o fferm y Wyddor sydd llai na milltir i ffwrdd - tybed os mai swn ffured yw'r swn?

**4, 2 ynteu 10 smotyn?**

Buwch goch gota bach iawn ar fy nghot ar ôl cyrraedd adref (Waunfawr) ardal Pontllyfni a Glynllifon, 10 Chwefror 2016. Mae'n debyg mai ffurf ar un o ddwy rywogaeth o *Adalia* ydi hwn, y fuwch gota dau-smotyn, neu'r fuwch gota 10-smotyn. Edrychaf ymlaen i gadarnhau hyn ac os yn gywir, oes modd adnabod pa rywogaeth yn union?



**DB**

# Newydd

9.600 o rywogaethau adar wedi eu llwytho i wefan Llen Natur ym mis Chwefror ar ol 20 mlynedd o waith gan weithgor o adarwyr a ieithyddion.

Beth yw'r enwau Cymraeg ar y fwlturiaid

Dewch yma i weld

**ENWAU TORFOL (mwy)**

RHAI SY'N BOD YN BAROD

Haid o gŵn
Gyrr o wartheg
Gre o geffylau
Diadell o ddefaid
Praidd o ddefaid
Buches o wartheg
Cenfaint o foch
Haig o bysgod






AWGRYMIADAU

Tawelwch o löynnod
Clegar o wyddau
Senedd o asynnod
Cytiad o ieir
Cecian o biod
Slefriad o nadroedd
Calchiadau o wylanod
Pardduaid o jacdoeau
Brenhiniaeth o eryrod
Twnelaid o foch daear
Gwynfyd o elyrch
Hetiad o sguthanod
Slachtar o gigfrain
(O'r Saesneg *slaughter* y daw hwn)
Prysurdeb o forgrug
Cymanfa o gathod
Cyfrinfa o lwynogod
Llysnafeddiad o falwod
Cawodydd o ddrudwy







Gormes o eliffantod
Sgrech o fwncwn
Peiloniad o jiraffs
Llinellau o deigrod
Jersi o sebras
Esgobaeth o bengwyniaid
Smiciadau o lygod
Tuniad o sardîns
Sglein o frithyll
Hwtiad o dylluanod
Llanast o golomennod



**Cynigion Gwyn Tomos ar gyfer colofn Bethan Wyn Jones (Herald Cymraraeg**

**Y Cae**

*The field, bathed in sunlight, was not always a field.*

*Once, it was a sloping hill strewn*
*with glacial stones, roots and branches*
*of oak trees, ash, hawthorn, chestnut,*
*a jungle of bramble, tall nettles,*
*a weave of wildflowers, seed laden grasses,*
*sheltering panting wolves, trembling foxes,*
*badgers, upright hares, tumbling rabbits,*
*and a deafening hum of insects.*

*Sunlight filtered, flitted through the canopy*
*of leaves, waving grasses, patting*
*petalled bobbing heads of flowers,*
*sliding slugs and snails,*
*fleetingly kissing its warmth*
*onto the dark, damp earth,*
*old bones, old blood, old leaves,*
*in that long ago amazon of*
*a Welsh tangle of forest.*


**Wendy Jones**

**Epona - ceffyl diogelu rhag drwg**

Llythyr bach diddorol yn Yr Herald - Daily Post yn ddiweddar yn son am benglog ceffyl. Ma gin i go o Richar Jones/ Wil Jones/Mike Cox yn cael hyd i benglog ceffyl yn sylfaen wal gerrig wrth Ystradlyn flynyddoedd yn ol.

Ystradlyn erbyn hyn ydi adeilad croeso CNC i gerddwyr i Gader Idris o fynedfa Minffordd.

O sbio am 'Epona' yn Wikipedia, "*She and her horse have been leaders of the Soul in the after life, with parallels in Rhiannon of the Mabinogion*." Hefyd gwraidd y gair 'ebol' yn y Gymraeg fodern. **Wil Williams**



**Pam penglog ceffyl tybed?**

YN y cyfnod Brythonaidd-Rufeinig defnyddiwyd penglogau ceffyl fel offrwm yn gysylltiedig â'r dduwies Epona a anwyd o gaseg.

Credent fod pŵer greddfol o fewn pen ceffyl a byddai cadw'r penglog yn eu diogelu rhag niwed a drygioni. Dyna sut y daeth Epona, duwies y ceffyl, yn rhan o draddodiad hynafol y bobl Geltaidd.

Mewn rhai ardaloedd roedd yn arferiad erstalwm i gladdu penglog ceffyl o dan lawr adeilad er mwyn dod â lwc dda i'r teulu.

O'r cefndir yma daeth yr holl arferion o ddathlu traddodiad y Fari Lwyd yng Nghymru, ac mewn llefydd eraill fel gŵyl 'Obby Oss' yng Nghernyw, a'r 'Hobby Horse' mewn sawl gŵyl arall yn Lloegr.

**Olwen Jones, Talwrn**

Herald

Ia, difyr iawn deud gwir. Dyma'r cynta' i mi glywed am benglog Ystradlyn i fod yn onest. Welis i erioed gyfeiriad at y darganfyddiad yn y ffeils, ac roedd Mike a Richard wedi hen adael cyn i mi gyrraedd mae gen' i ofn! Mae Ystradlyn yn hŷn na theulu Idris, ond dwn i ddim pa mor hen. Yn ôl cofnod Comisiwn Henebion Cymru am y tŷ stâd Dol-y-cae, roedd 'The Cottage', sef Ystradlyn, yn '19th Century lodge' yn perthyn i'r stâd hwnnw. Gwyddwn i William Owen Pughe farw yno yn 1835, ond dwi'n meddwl byddai angen cael cip ar archif ystâd Idris i ddysgu mwy (...y papurau bellach yn Lichtenstein? Yn sicr ddim gan archifdy Meirionnydd).

**Paul Williams (Warden CNC Cader Idris)**

## Merched y moresg



Mae yna falchder mawr am yr hen ddiwydiant cynaefu moresg yn Niwbwrch i'w wneud i nwyddau fel matiau, rhaffau, rhwydi ayb. Dyma pheth o eirfa merched y moresg am eu gwaith pob dydd:

*cryman* (uchod gan wraig ar y dde) tebycach i filwg nac i gryman i dorri'r moresg yn ei fon

*gafr*, llu. *gafrod* (nid geifr): ysgub o foresg (uchod gan y wraig ar y chwith)

*tant, tannau*: cortyn neu carrai wedi ei wneud o foresg i wnio dwy blethen i'w gilydd.

*pleth(en)*: rhimyn hir o foresg wedi ei blethu

**Pentra Ucha (Niwbwrch)**

Tan y Graig, Hafoty lawen
Gwninger Fach a Rhosydd druan;
Oddi yno i Gallt y Rhedyn
Tyddyn Plwm a Nyth Aderyn.

**Diolch i Einir Thomas am y gerdd hon**

Cewch bwt o hanes llafar y diwydiant hwn gan Bessie Owens (bellach yn gant oed ) yma. Ewch i weld mwy o hanes y moresg ym Mwletin 8 (tud 2). Mae Llên Natur wedi cael benthyg yn ddiweddar ddyddiaduron 19g Thomas Jones Gwningaer i'w trawsgrifio.... gwirfoddolwyr?

## Llifogydd Landerne (efeilldref Caernarfon), Llydaw



13 Chwefror eleni a 22 Mawrth 1913 (chwith).

*A Landerneau, dans le Finistère, l'Elorn a débordé ce samedi matin, assez pour que la mairie boucle le centre-ville. Vers 9h, l'eau est redescendue*

## Mwy am Llyn Llam Dda, afon Gwyrfai

Y cofnod cynharaf i mi ei ddarganfod hyd yn hyn o'r enw Llyn Llam Dda oedd 1884. Fe'i cofnodir yn y Caernarfon and Denbigh Herald (5/7/1884) yn son am fachgen 15eg oed; William Roberts o Ebenezer oedd yn "*milk-boy at Glanrafon Fawr farm, who bathed in the pool Llyn Llam Dda and rashly plunged into the water to a spot considerably out of his depth, and was drowned.*"

**Dafydd Whiteside Thomas**

## Tannau rhwydi pysgota

Sgwrs diweddar efo Tony Lovell, y pysgotwr o Gaernarfon: soniodd am y "tannau" a ddefnyddid wrth rwydo eogiaid o'r lan yn y Fenai - sef rhaffau i ddal y rhwyd, y "tant uchaf" gyda "chyrcs" arno i arnofio, a'r "tant isaf" ar y gwaelod.Cymharer y defnydd o tannau gan fatwyr moresg Niwbwrch (colofn chwith).

**Gol.**

## Diwrnod rhyfedd 18 Awst 2012

Niwl dopyn hyd lled cae i ffwrdd. Cymylau ben bore 8/8. Glaw mawr yn ystod yr hwyrnos ond braf iawn meddai fy chwaer am 9 o'r gloch neithiwr tua Llundain. Arolygon o wres eithriadol (bron a chyrraedd gwres 2003) yn Ffrainc ac i'r de. Rhybuddion melyn o lifogydd yn fan hyn, rhybuddion o wres peryglus yn Ffrainc. Anodd dirnad y fath dywydd.
gwynt nerth 3 De Orllewin tym max 25.5C min 19.1C
glaw 17.9mm **gorsaf dywydd Gwelfor, Waunfawr**

*Homes, gardens and cars in one suburban street* (yn **Sir Gaerloyw**) *were littered with smelly green algae, however, after a 'freak' stormy weather spout swept it up from a beach 32km (20 miles) away. Engineer Richard Overton and his wife, Kay, have collected a bucket full of the slime from their front garden and are still finding more in the bushes. 'I looked out of the window after a very big storm finished and to my amazement there was seaweed scattered over the garden,' said Dr Overton, 55. 'I've heard stories of fish being picked up and dumped by storms but never seaweed. I was just so surprised.' .... Experts believe the kelp was picked up from Clevedon beach, north Somerset, and carried through the air before being deposited on the street in Berkeley, near Cheltenham. Ian Fergusson, from the Met Office, said: 'There were several thunderstorms in the area and if one of the funnel clouds touched down on to the beach, making it a tornado, it could have quite possibly picked up the seaweed.'*

***Chios, Groeg**: The 2012 Chios forest fire was a wildfire that broke out in the southern half of the Greek island of Chios [Groeg] shortly after 2 a.m. on Saturday 18 August 2012. Early... the people of two villages in southern Chios were evacuated as a safety measure, and the blaze threatened the army base near Vessas. By the evening of 20 August it was reported that a total of nine villages had been evacuated as the fire continued to advance.*



**Llun drwy law Gareth Pritchard**

Dyma lun (chwith) o **Gored Caerhun ar Afon Conwy**, o bosib' yn dyddio'n ol i amser y Rhufeiniaid. Oes gan rhywun hanes y gored hon?

**Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd**
**(Rhif Elusen: 1126027).**

Mae Prosiect Llên Natur ar Facebook a Twitter.
Cysylltwch â ni trwy llennatur@yahoo.com

**Jetlif cyflymach yn arafu awyrennau - yn sgil newid hinsawdd.**



Olion anwedd (*contrails*) awyrennau boreol dros y Waunfawr, amryw yn croesi'r Iwerydd

Dyma esiampl diddorol o "Ddeddf y Canlyniadau na ellir eu Darogan". Mae'n esiampl hefyd o adborthi positif (*positive feedback*) yn yr hinsawdd: "mwy o losgi tanwydd awyren > twymo'r hinsawdd > cynnydd yng nghyflymdra'r jetlif > teithiau awyren hwy > mwy o losgi tanwydd awyren (i gywiro) > teithiau drytach!" Neu, mewn geiriau gwahanol: teithio awyren rhad yn achosi Newid Hinsawdd, ac mae Newid Hinsawdd yn achosi teithio drytach. Cyfiawnder Naturiol?

Ond onid yw'r teithiau <u>gyda</u>'r jetlif hefyd yn gynt ac yn cydbwyso y teithiau croes? Na, medde nhw, a dyma pam - yn ôl yr erthygl: *This was because planes slowed down by the jet stream spend more time fighting the headwind, while those sped up by it spend less time getting the boost.*

Ar 7 Ionawr y llynedd (2015) torwyd pob record cyflymdra gan awyren ar daith o Efrog Newydd i Lundain:

*British Airways Boeing 777-200 has recorded the fastest transatlantic crossing by a subsonic passenger plane after freak weather conditions helped it break the sound barrier, and travel at ground speeds of up to 745mph. BA Flight 114 between New York and London "surfed" on an unusually fast jetstream to make the flight in just 5 hours 16 minutes on Wednesday [7 Ionawr 2015], an hour-and-a-half ahead of schedule. The only plane to make the crossing quicker is Concorde, which made the journey in 2 hours 52 minutes in 1996.*

A beth oedd yn digwydd ar y ddaear y diwrnod hwnnw (yn ôl y Tywyddiadur)?:

Yng Ngwelfor a Llanrug roedd hi'n gymylog a thymhestlog, yn wyllt ac annifyr ond ddim yn bwrw`n drwm iawn. Dim golwg o`r Foel [Eilio] trwy'r niwl, ond yn fwynaidd. Roedd y tymheredd uchaf dros y 24 awr blaenorol yn oeraidd, 7.8C, a'r isafbwnt yn 4.7. Yng ngorsaf dywydd ysgol gynradd Llanrug roedd y glas yn disgyn yn gyflym am 10.15yb, y gwynt rhwng y de-ddwyrain a'r de, 8 medr/eiliad, a'r lleithder yn uchel 92%. Yn Golan, Garn Dolbenmaen cofnododd (y diweddar) Tom Jones ei bod hi'n lawog a gwyntog.

Ond beth oedd y jet-lif yn ei wneud y diwrnod hwn. Ewch yma i weld (sylwch yn arbennig ar chwarter isaf y siart, ar y dde).

Y GARAN, y CREYR a'r CICONIA





Gofynnodd Dafydd Lewis: "Roedd 'garan' ers talwm yn golygu 'stork' medda nhw i mi. Ydi hynny'n gywir? ('Crane' y dyddiau hyn). Oes na lefydd eraill wedi eu henwi ar ol y garan (stork), ac ydi hi'n debygol bod y stork (sef *Ciconia ciconia*) i'w weld yn yr ardaloedd hynny dros chwe chan mlynedd yn ol?" .

Dyma'r arbenigwr Dr Howard Williams i ateb:

Mae cyfeiriadau cynnar at yr aran yn dangos yn weddol glir fod y beirdd ac eraill yn arfer gwahaniaethu rhwng y Crus a'r Ardea ond wrth i'r Crus brinhau defnyddid 'garan' yn air arall am y 'creyr' (fel 'crane' a 'heron' yn Saesneg yn ol Cocker a Mabey yn Birds Britannica .) O ran y ciconia / stork mae C&M yn dweud bod yr aderyn trwy'r oesoedd yn hollol absennol (bron) o Brydain Fawr. A dywed Dr William Turner (1544): '*The Stork, though one of the best known of birds among the Germans, is to nearly all my countrymen of* Britain *as unknown as the most unknown bird*'. Byddai hynny yn esbonio pam roedd rhaid i William Morgan gael benthyg y gair Lladin. Mae 'na gyfeiriaidau gweddol cynnar i'r ciconia (gyda'i symbolaeth gref) yn llenyddiaeth Saesneg (e.e. Chaucer) ond mwy na thebyg mai'r ffynhonnell oedd y clasuron (e.e. Pliniws) a'r gwyddiaduron yn hytrach na phrofiad go-iawn.

Nid oes lun o'r aran yn ein casgliad: beth am waith gwyliau i'n ffotograffwyr?

**Cored y Rhos, Llandrillo yn Rhos**




'Roedd y gored yn rhoi bywoliaeth dda hyd ran gyntaf yr ugeinfed ganrif. Yn 1850, mewn un noson, daliwyd 35,000 o benwaig! Tybed, sut mae hyn yn cymharu hefo Penwaig Nefyn? Yn 1907, daliwyd 10 tunnell o fecryll yn ystod un llanw!

**Gareth Pritchard**



# Waliau cerrig i'r daearegydd (Math Williams)



Wal garreg sawl metr o drwch (dyfnder), efallai yn rhan o amddiffynfaedd y gaer oes haearn ar gopa Garn Fawr, tua 100-150 m o'r wal hon. Mae'r cerrig wedi eu casglu/torri ar y garn. Craig igneaidd, microgabbro, oed Ordoficaidd. Cyfeirnod grid SM1897,2387.



Wal garreg sawl metr o drwch, efallai yn rhan o amddiffynfaedd y gaer oes haearn ar gopa Garn Fawr, tua 100-150 m o'r wal hon. Mae'r cerrig wedi eu casglu/torri ar y garn.Craig igneaidd, microgabbro, oed Ordoficaidd. Cyfeirnod grid SM1897,2387.



Wal o gerrig wedi eu casglu gerllaw. Cerrig Ordoficaidd (oed 451 i 461 miliwn bl.); gan bennaf Capel Curig Volcanic Formation yn cynnwys tuff felsic (lludw â chynnwys uchel o silica wedi caledu/"weldio" tra'n boeth); a pheth Cwm Eigiau Formation wedi ei gwaddodi mewn moroedd bas ac yn cynnwys carreg silt, a thywodfeini budur. Cyfeirnod grid SH2747,3752.



Wal o gerrig slabog wedi eu tynnu o chwarel lleol. Cerrig gwaddodol o foroedd bas Ordoficaidd (oed tua 456 miliwn o flynyddoedd) yn cynnwys cymysgedd o gerrig mwd, cerrig silt a thywodfeini budur. Cyfeirnod grid SH2554,3495



Wal garreg i adeilad chwarel ger Bwlch Cwm Llan sydd rhwng Yr Wyddfa a'r Aran. Chwarel fach llechi oedd hon. A gwblhauwyd yr adeilad? A werthwyd llechi o'r chwarel hon? Neu a orfu iddi gau cyn cynhyrchu llechi tô? Mae'r llechi yma yn rhan o'r Cwm Eigiau Formation; oed Ordoficaidd. Cyfeirnod grid SH26043522.



Y cerrig yma wedi eu torri lle mae craig yn brigo i'r wyneb gerllaw. Tywodfaen budur yw hi sy'n cynnwys lludw folcanic a siment calch; un o sawl gwely o Moel Hebog Sandstone rhwng sîal tywyll Cwm Eigiau Formation. Gwaddodwyd mewn moroedd bas ar gyrion ynysoedd llosgfynydd. Cyfeirnod grid SH25873424.